# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

**2018 dccc 5**

*Adroddiad a darpariaeth fachlud*

**21 Adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf hon**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod 5 mlynedd, osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf hon yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Wrth lunio'r adroddiad rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad.

(4) Yn is-adran (1), mae i "y cyfnod 5 mlynedd" yr ystyr a roddir yn adran 22(4).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 21 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I2** A. 21 mewn grym ar 2.3.2020 gan O.S. 2020/175, **rhl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, Adran 21.